

# Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Park Lane, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 07 Chwefror 2024

Dyddiad cyhoeddi: 09 Mai 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	16
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	23
4.	Y camau nesaf .....	28
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	29
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	30
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	31

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Park Lane, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 07 Chwefror 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 30 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Yn gyffredinol, roedd yr adborth a gawsom gan gleifion drwy holiaduron AGIC yn gadarnhaol mewn perthynas â'r gofal iechyd a gafwyd, ond yn wael mewn perthynas â chael apwyntiadau.

Gwelsom fod y staff yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth gofalgar a phroffesiynol i gleifion ac yn gweithio o fewn y clwstwr gofal iechyd lleol i sicrhau dull cydweithredol o wasanaethu'r gymuned.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ddwyieithog ar gael yn y practis ac ar y wefan i helpu'r cleifion i wella eu hiechyd a'u llesiant.

Roedd mynediad gwastad i'r practis a'r ardaloedd trin a oedd yn galluogi cleifion â phroblemau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadair olwyn i ddefnyddio'r cyfleusterau yn hawdd. Gwelsom y staff yn helpu cleifion â phroblemau symudedd.

Roedd yr ystafell aros i gleifion yn lân ac yn fawr gydag ystafell dawel ar gael i gleifion a oedd yn bryderus neu'n niwrowahanol. Roedd toiledau'r cleifion yn hygyrch.

Gwelsom fod gwasanaeth hebryngwyr yn cael ei gynnig a bod polisiau perthnasol ar waith. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cleifion wrthym nad oeddent wedi cael cynnig hebryngwyr ar gyfer archwiliadau neu driniaethau personol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella'r trefniadau ar gyfer preifatrwydd a chyfrinachedd y cleifion pan fyddant yn siarad wrth ddesg y dderbynfa.
- Gwella'r broses o drefnu apwyntiadau ar gyfer y cleifion
- Darparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd ystafell dawel ar gael i'r cleifion
- Mae'r cynorthwywyr gofal iechyd yn cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod camau dilynol wedi cael eu cymryd.
- Roedd cymorth iechyd meddwl a ariennir gan y clwstwr ar gael.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd tîm y practis yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion mewn amgylchedd a oedd yn fawr, heb annibendod na pheryglon amlwg. Fodd bynnag, gwelsom fod angen rhoi sylw i ardal y cyntedd yn y fynedfa gan fod algae ar y to gwydr a llwch a llwydni ar gadeiriau olwyn y cleifion.

Yn ôl ein hadolygiad o fesurau atal a rheoli heintiau roedd polisi ar waith. Fodd bynnag, nid oedd arweinydd wedi'i benodi, ni welsom gontract glanhau ac nid oedd amserlenni glanhau ar gael i ni. Er bod sebon a gel hylendid dwylo ar gael ym mhob rhan o'r practis, gwelsom fod angen gwneud gwaith glanhau ychwanegol yn nhoiledau'r cleifion.

Ar y cyfan, roedd y broses o reoli meddyginiaethau yn dda gydag archwiliadau ac adolygiadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd, a gwelwyd bod padiau presgripsiwn a meddyginiaeth yn cael eu storio dan gloi a'u bod o fewn eu dyddiadau. Nid oedd rhestr wirio o'r cyffuriau a'r brechlynnau a gedwir yn y practis.

Roedd cofnodion meddygol y cleifion a welsom yn glir ac yn hawdd eu deall. Fodd bynnag, roedd angen gwneud rhai gwelliannau am fod defnydd anghyson o godau Read i ddisgrifio'r gofal a'r driniaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Hysbysu'r staff ynghylch canlyniadau dadansoddiadau o ddigwyddiadau o bwys er mwyn eu hannog i ddysgu gwersi o ddigwyddiadau
- Cynnal asesiad risg ar gyfer ymweliadau â chartrefi
- Penodi arweinydd atal a rheoli heintiau sydd wedi'i hyfforddi'n addas
- Storio cyfarpar brys mewn un lleoliad a'i wirio bob wythnos.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- System gyfeillio â phractis cyfagos fel rhan o'r trefniadau parhad busnes
- Roedd y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol wedi'u calibradu, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac mewn cyflwr da.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd y tîm o staff yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion. Roedd y staff yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i gleifion.

Er bod cyfarfodydd cynllunio dyddiol yn cael eu cynnal rhwng rheolwr y practis a meddygon ac er bod ffrydiau cyfathrebu da ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff, nid oedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod cofnodion wedi'u cadw.

Gwelsom fod proses sefydlu gadarn ar waith ar gyfer staff newydd a bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn cael ei monitro. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwelliannau gan fod hyfforddiant rhai aelodau o'r staff yn anghyflawn.

Roedd gan y practis bolisi cwynion yn unol â Gweithio i Wella y GIG a threfniadau amrywiol i gasglu adborth gan y cleifion. Dywedwyd wrthym fod system ffôn y practis wedi cael ei newid oherwydd adborth a gafwyd. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis osod hysbysfwrdd 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' yn yr ystafell aros i ddangos y newidiadau a wnaed o ganlyniad i sylwadau'r cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd gan gadw cofnodion ffurfiol
- Staff i gwblhau hyfforddiant gorfodol
- Diwygio'r polisi cwynion i adlewyrchu aelodau presennol tîm y practis
- Arddangos poster Gweithio i Wella.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae gan yr uwch-reolwyr bolisi drws agored Roedd y staff yn ystyried bod y meddygon teulu partner yn 'gefnogol iawn'
- Ymgysylltu â grŵp cyfranogiad cleifion lleol i wella a datblygu gwasanaethau
- Dyletswydd Gonestrwydd wedi'i chynnwys yn rhaglen sefydlu'r practis.



## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, a'r brif broblem oedd cael gafael ar feddyg teulu a chael apwyntiadau. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Dyma rai o'r sylwadau a gawsom am y gwasanaeth a sut y gallai wella:

*“Mae'r meddygon a'r staff yn wych, mae'r [meddyg] yn arbennig yn wych gyda fy mhlant a minnau. Fy unig gŵyn yw bod yn rhaid ffonio i gael apwyntiad ac mae'r llinellau ffôn bob amser mor brysur.”*

*“Mae'r staff yn y practis yn wych, a'r unig broblem yn y practis hwn yw ceisio cael apwyntiadau.”*

*“Mae'r [meddyg] yn barod iawn i helpu ac mae'n treulio amser yn gwrando ac yn helpu gyda chyflwr y claf.”*

*“Pan fyddwch yn llwyddo i weld y meddygon, maen nhw'n wych. Y broblem yw cael apwyntiadau...”*

#### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu Iechyd

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd ysgrifenedig ar gael i gleifion yn y practis.

Dywedodd y staff wrthym fod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei darparu gan y bwrdd iechyd lleol a sefydliadau trydydd sector. Roedd y wybodaeth yn cael ei harddangos yn ardal aros y cleifion, ar hysbysfyrddau yng nghyntedd y fynedfa ac yn cael ei hyrwyddo drwy dudalen Facebook a gwefan y practis. Roedd aelod penodol o'r staff yn gyfrifol am sicrhau bod y deunydd ar-lein yn gyfredol.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgymryd â mentrau hybu iechyd meddwl fel atgyfeiriadau at gwrselwyr MIND a gaiff eu hariannu gan y clwstwr, sy'n digwydd ar

ddydd Llun a dydd Mawrth. Roedd cynorthwydd gofal iechyd y practis yn cwblhau archwiliadau cyn-diabetes ac yn cynnal clinigau ar gyfer pobl iach gan gynnig cyngor ar fyw'n iach gan gynnwys atgyfeirio cleifion at Slimming World gyda thalebau wedi'u hariannu gan y clwstwr gofal iechyd.

O blith y 30 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC, dywedodd 28 wrthym eu bod yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' fod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn y practis.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn monitro ac yn adolygu cleifion na wnaethant fynychu eu hapwyntiadau, a bod yr achosion yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion. Roedd y practis yn ffonio'r cleifion yn uniongyrchol yn aml, a oedd yn ddigon i ddatrys y mater fel arfer. Nid oedd cynllun ysgrifenedig ar waith ar gyfer delio â chleifion na wnaethant fynychu eu hapwyntiad, a gwnaethom drafod y gellid rhoi proses ar waith, yn enwedig ar gyfer cleifion sy'n blant.

Disgrifiwyd y broses a oedd ar waith i reoli rhaglen frechu'r gaeaf. Dywedwyd wrthym fod brechlynnau ar gyfer pobl dros 65 oed wedi'u cwblhau a bod y rhan fwyaf o'r brechlynnau ar gyfer pobl gymwys o dan 65 oed wedi'u cwblhau hefyd. Roedd y practis yn ymwybodol bod rhai cleifion wedi cael eu brechlynnau mewn fferyllfa gyfagos a oedd hefyd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

### **Gofal urddasol a pharchus**

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn modd proffesiynol a chyfeillgar. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, roedd galwadau ffôn yn cael eu cymryd yn y swyddfa weinyddol, a oedd wedi'i lleoli i ffwrdd o ddesg y dderbynfa. Fodd bynnag, roedd mwy na hanner yr ymatebwyr i holiadur AGIC (18/30) o'r farn nad oeddent yn gallu siarad ag aelod o staff y dderbynfa heb gael eu clywed gan bawb yn yr ardal aros i gleifion. Ymysg rhai o'r sylwadau a gawsom am breifatrwydd yn y dderbynfa roedd:

*“Mwy o breifatrwydd wrth siarad â'r derbynydd. Mae'n dawel a gall pawb glywed yr hyn rydych chi'n siarad amdano gan gynnwys manylion personol.”*

*“Nid oes unrhyw breifatrwydd er mwyn gofyn cwestiynau i staff y dderbynfa.”*

Rhaid i'r practis sicrhau bod cleifion sy'n siarad wrth ddesg y dderbynfa yn gallu gwneud hynny mewn ffordd sy'n cynnal eu preifatrwydd a'u cyfrinachedd.

Yn ystod ein taith o amgylch y practis, gwelsom fod drysau'r ystafelloedd trin ar gau a bod llenni ar gael i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion. Dywedwyd

wrthym y byddai meddygon teulu yn cynnig hebryngwyr i'r cleifion fel sy'n briodol, o blith aelodau o dîm nyrsio'r practis. Gwelsom hysbysiad yn cynnig y gwasanaeth hebryngwyr yn yr ardal aros a gwelsom fod polisi hebryngwyr ar waith yn y practis. Fodd bynnag, nododd dau ymatebydd i'r holiadur i gleifion nad oeddent wedi cael cynnig hebryngwr ar gyfer archwiliadau neu driniaethau personol.

**Rydym yn argymhell y dylai'r practis fyfyrion ar y mater a godwyd yn yr adborth hwn i sicrhau bod pob claf yn cael cynnig hebryngwr pan fydd hynny'n briodol, yn unol â pholisi'r practis.**

Gwnaethom nodi fod yr holl ardaloedd i gleifion gan gynnwys yr ystafelloedd trin wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod gyda mynediad gwastad o lefel y stryd, sy'n sicrhau hygyrchedd da i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Gwelsom y staff yn helpu cleifion â phroblemau symudedd.

Teimlai pob un o'r cleifion a atebodd holiadur AGIC namyn un eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a dywedodd bron pob claf a atebodd fod mesurau'n cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd.

## **Amserol**

### **Gofal Amserol**

Roedd Meddygfa Park Lane ar agor rhwng 8am a 6:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Roedd apwyntiadau ar gael drwy ffonio neu ddefnyddio e-Consult. Dywedwyd wrthym fod y practis yn ystyried ailagor y system electronig ar gyfer trefnu apwyntiadau ond roedd yn pryderu y gallai nifer y cleifion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiad gyrraedd lefelau nas gwelwyd ers cyn y pandemig.

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer asesu ac atgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl. Roedd hyn yn cynnwys gweithiwr cymorth a ariennir gan y clwstwr sydd wedi'i leoli yn y practis ac apwyntiadau ychwanegol i gefnogi cleifion sydd mewn argyfwng. Nodwyd fod mynediad at ofal seiciatrig arbenigol, yn enwedig Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn anodd.

Dywedwyd wrthym nad oedd y staff gweinyddol yn brysbennu'r cleifion ac y byddai pob ymholiad gofal meddygol yn cael ei drosglwyddo i'r meddyg. Roedd apwyntiadau ychwanegol wedi cael eu creu ac roedd meddyg ychwanegol ar gael ar brynhawn dydd lau i ateb y galw.

Roedd y practis yn credu bod yn well gan y cleifion gael apwyntiadau wyneb yn wyneb yn hytrach nag ymgynghoriadau o bell, ac roedd y meddygon yn cynnal ymweliadau â chartrefi yn rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod pob plentyn o dan bump oed yn cael ei weld wyneb yn wyneb.

Dyweddod ychydig dros hanner y cleifion a ymatebodd i'r holiaduron eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan oedd angen iddynt weld meddyg teulu ar fyrder ac y gallent gael apwyntiadau cyffredin pan oedd eu hangen arnynt. Prin oedd y cleifion (20%) a atebodd a oedd wedi cael cynnig yr opsiwn i ddewis y math o apwyntiad a oedd orau ganddynt.

Mae rhai o'r sylwadau a gawsom am y broses o gael gafael ar feddyg teulu wedi'u nodi isod:

*“Nid wyf wedi bod gyda'r feddygfa yn hir ond bob tro rwyf wedi ffonio, rwyf wedi llwyddo i gael apwyntiad yr un diwrnod.”*

*“Mae'n ymddangos bod y practis yn gwasanaethu poblogaeth rhy fawr gan fod apwyntiadau'n brin. Mae'n arbennig o rhwystredig ceisio trefnu apwyntiad cyffredin, ar gais meddyg teulu, a bod angen cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith er mwyn ffonio yn ystod oriau penodol. Pam nad yw trefnu apwyntiad ar-lein yn opsiwn yn yr oes hon?”*

*“...os gallwch gael apwyntiad, ac yn dibynnu ar y meddyg y byddwch yn ei weld, gall y gofal ei hun fod yn dda iawn.”*

*“Mae'r broses o drefnu apwyntiad dros y ffôn yn wael. Dim apwyntiadau ar ôl hyd yn oed pan fyddwch ar ddechrau'r ciw. Nid yw'n bosibl trefnu apwyntiadau ar gyfer archwiliadau cyffredinol.”*

*“Nid oes ystyriaeth i gleifion sy'n gweithio ac sy'n gorfod cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith gan na ellir ffonio yn y bore i drefnu apwyntiad...”*

*“...mae ceisio cael apwyntiad yn ofnadwy.”*

Rydym yn argymhell y dylai'r practis fyfyrion ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael triniaeth mewn modd amserol.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Dyweddod y staff wrthym am y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir i rannu gwybodaeth â chleifion. Yn ogystal â siarad â chleifion wyneb yn wyneb, byddai'r staff yn eu ffonio ac yn anfon neges destun atynt i rannu gwybodaeth benodol pe bai angen, a byddai'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu diweddarau'n gyson.

Gwelsom y staff yn cymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod anghenion cleifion unigol yn cael eu diwallu. Dywedodd rheolwr y practis wrthym eu bod yn ceisio trefnu apwyntiadau yn ystod adegau tawelach ar gyfer cleifion ag awtistiaeth a dywedodd y byddent yn cael eu brysbennu i'w gweld yn gyflymach. Gwelsom fod ystafell dawel ar gael a bod dolen sain wedi'i gosod i'r cleifion ei defnyddio.

Roedd llawer o wybodaeth ddwyieithog ar gael yn y practis i'r cleifion ac roedd gwasanaeth cyfieithu ar gael a oedd wedi cael ei ddefnyddio sawl gwaith. Er bod unigolyn sy'n dysgu Cymraeg yn gweithio yn y practis, dywedwyd wrthym nad yw'n ddigon hyderus i wisgo'r bathodyn 'laith Gwaith' er mwyn i'r cleifion weld ei fod yn siarad Cymraeg ac nad oedd y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gael i'r cleifion. Gwnaethom ofyn i reolwr y practis annog yr unigolyn i ystyried gwisgo'r bathodynnau hyn yn y dyfodol.

**Mae'n ofynnol i reolwr y practis roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.**

Roedd y practis yn sicrhau bod negeseuon, gan gynnwys diagnosisu a newidiadau yng nghyflwr cleifion, yn cael eu trosglwyddo i'r bobl briodol gan ddefnyddio negeseuon a baneri hysbysu ar system TG y practis a bod ymholiadau'n cael eu dogfennu yn nodiadau'r cleifion. O dan y system, roedd modd marcio negeseuon fel rhai wedi'u cwblhau er mwyn sicrhau y gweithredwyd ar bob neges.

Gwelsom fod y practis yn dosbarthu dogfennau papur o amgylch y practis gyda'r ddogfen yn cael ei sganio ar y system ar ddiwedd y broses, ar ôl i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau. Cawsom wybod hefyd fod y practis yn argraffu gohebiaeth electronig a oedd wedyn yn cael ei dosbarthu i'w gweithredu cyn cael ei sganio'n ôl i'r system ar ôl iddi gael ei chwblhau. Roedd y cynorthwydd gofal iechyd yn cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod camau dilynol wedi cael eu cymryd. Roedd y broses o drosglwyddo copiâu papur yn cyflwyno risgiau y gallai post fynd ar goll, y gallai gwaith gael ei ddyblygu, y gallai fod oedi wrth drosglwyddo gwybodaeth bwysig a gweithredu arni ac y gallai llwybr archwilio'r broses ddosbarthu gael ei golli.

**Rydym yn argymhell y dylai'r holl bost sy'n cyrraedd gael ei sganio ar system TG y practis cyn cael ei ddosbarthu i'r staff perthnasol weithredu arno drwy'r broses llif gwaith ar y system TG.**

Roedd bron pob un o'r cleifion a atebodd holiadur AGIC o'r farn bod y meddyg teulu wedi esbonio pethau'n dda iddynt ac wedi ateb eu cwestiynau i gyd ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd. Dyma rai o'r sylwadau a gawsom am ofal cleifion:

*“Mae'r [meddyg] yn barod iawn i helpu ac mae'n treulio amser yn gwrando ac yn helpu gyda chyflwr y claf. Mae'r gofal a ddarperir yn werth chweil a bydd unrhyw apwyntiadau sydd eu hangen yn y dyfodol yn cael eu gwneud gyda chais penodol i'w weld ef yn bersonol!”*

*“Mae'r meddygon teulu yn ofalgar iawn ac yn gwneud i chi deimlo'n gyfforddus a bod rhywun yn gwrando arnoch.”*

*“Anaml iawn y byddaf yn cael apwyntiad sy'n addas, os o gwbl. Pan fyddaf yn cael apwyntiad, mae'r meddygon yn ymddangos yn eithaf difater a diystyriol, a byddaf yn gorfod mynd yn ôl ar gyfer yr un peth sawl gwaith. Y peth gorau y maent am ei wneud yw rhoi tabled i chi er mwyn cuddio'r broblem yn hytrach na chanfod beth sydd o'i le a helpu i ddatrys y broblem.”*

*“Mae'r staff yn wych bob amser. Mae'r system trefnu apwyntiadau wedi gwella'n fawr.”*

## **Hawliau a Chydraddoldeb**

Roedd mynediad da yn y practis. Roedd maes parcio am ddim dynodedig a gallai ceir stopio y tu allan i'r prif ddrysau er mwyn i gleifion ag anawsterau symudedd allu mynd i mewn i'r adeilad yn hawdd. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau i newid y manau parcio o flaen y feddygfa i rai ar gyfer pobl anabl yn unig.

Roedd drysau awtomatig wedi cael eu gosod yn yr ardal aros i sicrhau mynediad i wasanaethau a dywedwyd wrthym fod y practis yn paratoi i ehangu'r ddarpariaeth hon i'r drysau ffrynt a'r meddygfeydd. Roedd yr ardal aros a'r ystafelloedd trin yn fawr, gyda mynediad cyfleus i doiledau'r cleifion.

Gwelsom dystiolaeth bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cynhwysfawr ar waith, yn ogystal â pholisi bwlio ac aflonyddu. Roedd hyfforddiant 'Treat Me Fairly' wedi'i gwblhau gan y rhan fwyaf o'r staff. Fodd bynnag, roedd dau a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi bod yn destun gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn neu wrth ei ddefnyddio.

**Rhaid i'r practis hysbysu AGIC ynghylch y camau pellach y mae'n eu cymryd i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn cleifion.**

Roedd y practis yn cymryd camau rhagweithiol i barchu hawliau cleifion trawsryweddol. Gwelsom fod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin mewn modd sensitif, a chadarnhaodd y staff fod rhagenwau ac enwau a ffefrir bob amser yn

cael eu defnyddio. Roedd y system cofnodion electronig yn nodi'r rhagenwau a'r enwau a ffefrir gan y cleifion.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli Risg

Ar y cyfan, gwelsom fod yr ardaloedd i'r cleifion yn y practis yn olau, yn lân ac yn daclus, heb unrhyw annibendod.

Gwelsom fod mwsogl ac algae wedi casglu ar du allan y to gwydr yng nghyntedd y fynedfa, a bod olion gwyngalch ar y tu mewn. Gwelsom fod sawl cadair olwyn yn y cyntedd a oedd ar gael i'w defnyddio gan gleifion â phroblemau symudedd. Fodd bynnag, gwelsom lwydni ar un gadair a llwch ar rai eraill. Yn ystod ein taith o amgylch y practis gwelsom hefyd fod angen glanhau'r toiled i gleifion ymhellach gan fod staeniau ar y wal. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd cortyn tynnu mewn argyfwng ar gael yn y toiled hygyrch.

**Rhaid i'r practis drefnu bod y problemau glanhau yn cael eu datrys a bod y cortyn tynnu mewn argyfwng yn cael ei osod cyn gynted â phosibl.**

Yng nghefn yr adeilad, gwelsom nad oedd y fynedfa i'r staff wedi'i chloi gan roi mynediad i ardaloedd cyfyngedig yn y practis. Roeddem yn credu bod hyn yn peri risg i staff, cyfarpar meddygol, meddyginiaethau a chofnodion. Gwnaethom godi hyn ar unwaith gyda rheolwr y practis a drefnodd bod y drws yn cael ei gloi.

**Rhaid i'r practis osod system gloi briodol ar y drws er mwyn sicrhau bod y fynedfa gefn yn cael ei diogelu.**

Gwelsom gynllun parhad busnes y practis a oedd yn gyfredol. Roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ynghyd â manylion system gyfeillio â phractis cyfagos, er mwyn sicrhau y gallai'r gofal i gleifion barhau pe bai argyfwng neu sefyllfa andwyol.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym eu bod yn cael rhybuddion diogelwch cleifion. Roedd y rhain yn cael eu dosbarthu'n briodol ymysg y staff drwy e-bost. Cawsom wybod bod unrhyw rybuddion diogelwch cleifion a digwyddiadau o bwys hefyd yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm clinigol. Fodd bynnag, nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o adborth o ddadansoddiadau o ddigwyddiadau o bwys.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cael eu hysbysu ynghylch canlyniadau dadansoddiadau o ddigwyddiadau o bwys er mwyn eu hannog i ddysgu gwersi o ddigwyddiadau.**



Dywedwyd wrthym fod cymorth brys ar gael drwy bwysu botwm galw pwrpasol ar y system TG glinigol a fyddai'n rhybuddio pob defnyddiwr. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai aelodau o'r staff yn ansicr o'r cyfleuster hwn a'r broses i'w dilyn pe bai angen iddynt alw am help ar frys.

### **Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn gwbl ymwybodol o'r system rhybuddio botwm coch.**

Gwnaethom drafod y camau a gymerir pan ofynnir am ymweliadau â chartrefi a gwelsom, yn dilyn proses frysbenneu gan feddyg, y byddai'r ymweliadau fel arfer yn cael eu cynnal yr un diwrnod, gyda chyfarpar diogelu personol priodol yn ôl yr angen clinigol. Fodd bynnag, roedd yr ymweliadau hyn yn cael eu cynnal ar sail ymddiriedaeth a'u gwybodaeth am eu cleifion. Gwnaethom gadarnhau nad oedd asesiad risg ar ymweliadau â chartrefi wedi'i gwblhau eto.

### **Mae'n ofynnol i'r practis gynnal asesiadau risg mewn perthynas ag ymweliadau â chartrefi.**

Os bydd claf yn gorfod aros yn hir am ambiwlans yn ei gartref, byddai gofal sylfaenol yn cael ei roi i sefydlogi ei gyflwr cyn cynnal asesiad risg i weld a oes angen trafnidiaeth amgen.

### **Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**

O'r cleifion a ymatebodd i'n holiadur, roedd y rhan fwyaf o'r farn fod y practis yn 'lân iawn' neu'n 'lân'. Dywedodd 14 o'r cleifion wrthym fod gel hylendid dwylo bob amser ar gael iddynt yn y practis, roedd tri yn anghytuno â hyn, a nododd 11 eu bod yn ansicr. Yn ogystal, roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn cytuno bod y staff gofal iechyd yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl darparu gofal.

Nododd 11 o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur eu bod wedi mynychu er mwyn cael triniaeth fewnwithiol. Dywedodd pob un ohonynt fod y cyfarpar wedi cael ei becynnu'n unigol a'i fod yn ymddangos ei fod wedi'i ddiheintio, ac atebodd y mwyafrif fod y staff wedi gwisgo menig yn ystod y driniaeth a bod weips gwrthfacterol wedi cael eu defnyddio i lanhau'r croen cyn dechrau'r driniaeth.

Roedd sebon ar gael yn nhoiledau'r cleifion a'r staff. Gwelsom bosteri golchi dwylo yn yr ardaloedd trin ac yn y toiledau. Gwelwyd gel hylendid dwylo ym mhob ardal glinigol.

Cawsom gopi o Bolisi Atal a Rheoli Heintiau'r practis. Roedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac roedd ar gael i bob aelod o'r staff drwy yriant a rennir ar system TG y practis. Roedd yn cynnwys y broses i'w dilyn os bydd anaf nodwydd. Fodd bynnag,

gwnaethom nodi nad oedd posteri ynghylch anafiadau nodwydd ar gael yn yr ystafelloedd trin i roi gwybod i'r staff am y camau i'w cymryd pe bai rhywun yn cael anaf offer miniog.

**Rydym yn argymhell y dylai fod siart llif anafiadau offer miniog ar gael ym mhob ardal glinigol yn y practis er mwyn osgoi oedi diangen cyn cael triniaeth neu gyngor meddygol.**

Roedd archwiliad atal a rheoli heintiau wedi'i gynnal yn ddiweddar gan reolwr y practis. Roedd gweithdrefnau rheoli gwastraff priodol ar waith gyda biniau gwastraff clinigol ac offer miniog yn cael eu rheoli gan nyrsys y practis. Fodd bynnag, nid oedd arweinydd atal a rheoli heintiau wedi'i benodi, gyda'r nyrsys a'r cynorthwywyr gofal iechyd yn gyfrifol am yr ystafelloedd trin clinigol.

**Rydym yn argymhell y dylai'r practis benodi arweinydd atal a rheoli heintiau i roi cyngor a chymorth i gydweithwyr mewn perthynas â materion atal a rheoli heintiau.**

Gwelsom fod yr amgylchedd clinigol o safon dda ar y cyfan. Roedd y lloriau a'r arwynebau gwaith wedi'u gwneud o ddeunydd addas y gellir ei sychu, gan olygu bod modd eu glanhau'n effeithiol ac roedd yn ymddangos eu bod mewn cyflwr da. Roedd cwmni allanol yn gyfrifol am lanhau'r practis. Fodd bynnag, ni allem ddod o hyd i gopi o'r contract glanhau, ac ni welsom dystiolaeth o amserlenni glanhau.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod contract glanhau ar waith a bod amserlenni glanhau digonol yn cael eu defnyddio a rhoi tystiolaeth i AGIC o hyn.**

Roedd y gwaith o fonitro ac archwilio statws imiwneiddio Hepatitis B staff yn cael ei reoli gan reolwr y practis.

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Gellid gwneud ceisiadau am bresgripsiynau rheolaidd drwy Fy Iechyd Ar-lein, yn bersonol yn y practis neu drwy'r fferyllfa leol. Er mwyn sicrhau bod cleifion yn parhau i gael y meddyginiaethau mwyaf priodol, dywedwyd wrthym y byddai angen i gleifion gael adolygiadau blynyddol o'u meddyginiaeth. Hefyd, roedd y practis yn monitro os oedd meddyginiaethau'n cael eu harchebu'n gynnar neu os nad oeddent wedi cael eu harchebu ers peth amser. Byddai hyn yn llywio penderfyniadau i atal gordddefnydd o feddyginiaeth neu a ddylid tynnu meddyginiaethau o'r rhestr presgripsiynau rheolaidd.

Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd wedi'i gloi er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Pan fydd meddyg teulu yn gadael y practis, caiff y padiau presgripsiwn perthnasol eu darnio o fewn y practis fel na ellir eu

defnyddio yn y dyfodol. Dywedwyd wrthym, yn dilyn ymweliadau â chartrefi, y byddai meddygon teulu yn ysgrifennu presgripsiynau pan fyddent yn dychwelyd i'r practis. Roedd presgripsiynau a ddinistriwyd yn cael eu codio mewn cofnodion i nodi nad oeddent yn cael eu defnyddio mwyach.

Roedd gan y practis nifer cyfyngedig o gyffuriau nad ydynt yn rhai brys ar y safle. Roedd brechlynnau'n cael eu storio mewn oergelloedd brechlynnau pwrpasol oedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n flynyddol. Roedd polisi cadwyn oer cyfredol ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau y mae angen eu cadw mewn oergell yn cael eu storio'n ddiogel, a rhoddwyd sicrwydd i ni fod y staff yn gwybod pa gamau i'w cymryd pe bai'r gadwyn oer yn cael ei thorri. Cawsom dystiolaeth o wiriadau tymheredd a gynhelir ddwywaith y dydd er mwyn cadarnhau y cydymffurfir â'r polisi cadwyn oer. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cofnodwyr data ar gael ar gyfer yr oergelloedd meddyginiaeth i fonitro tymhereddau dros y penwythnosau a gwyliau banc ac ar ôl toriadau trydan.

**Rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried defnyddio cofnodwyr data tymheredd i fonitro tymhereddau'r oergelloedd.**

Roedd gwiriadau o gyffuriau a meddyginiaethau yn cael eu cynnal gan y tîm nyrsio. Er ein bod wedi gweld bod yr holl feddyginiaethau wedi'u storio dan glo a'u bod o fewn eu dyddiadau, nid oedd rhestr wirio o'r cyffuriau a'r brechlynnau a gedwir gan y practis. Ymhellach, nid oedd thermometr ystafell i sicrhau bod cyffuriau'n cael eu storio ar y tymheredd gofynnol.

**Rhaid i'r practis gadw rhestr wirio o'r cyffuriau a'r brechlynnau a gedwir yn y practis.**

**Rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried gosod thermometr ystafell lle caiff meddyginiaeth ei storio.**

### **Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am drefnu bod dyfeisiau a chyfarpar yn cael eu harchwilio a'u calibradu bob blwyddyn, gyda'r staff yn rhoi gwybod am unrhyw atgyweiriadau neu gyfarpar newydd yr oedd ei angen ar frys. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod yr holl ddyfeisiau a chyfarpar mewn cyflwr da ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd cyfarpar brys ar gael, gan gynnwys ocsigen a diffibriliwr. Roedd y practis wedi ystyried cyflyrau eraill sy'n bygwth bywyd drwy sicrhau bod cyffuriau brys ar gael ar gyfer asthma a hypoglycaemia fel rhan o becyn brys y practis. Gwelsom dystiolaeth bod y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn cael eu gwirio bob mis.

**Rydym yn argymhell y dylai'r cyfarpar a'r cyffuriau brys gael eu gwirio bob wythnos.**

Er i ni weld arwyddion yn y dderbynfa ac ar ddrws yr ystafell drin berthnasol a oedd yn dangos lleoliad y diffibriliwr, gwelsom nad oedd arwyddion ar gyfer yr ocsigen a'r cyffuriau brys. Ymhellach, roedd y cyfarpar brys wedi'i rannu rhwng dwy ystafell drin, gyda rhywfaint o'r cyfarpar wedi'i gloi mewn cwpwrdd a oedd yn golygu na ellid cael gafael arno'n rhwydd mewn argyfwng.

**Rydym yn argymhell y dylai'r practis storio'r holl gyfarpar a meddyginiaethau brys mewn un lleoliad, gydag arwyddion priodol i ddangos y lleoliad i'r staff.**

Gwnaethom archwilio'r diffibriliwr allanol awtomataidd a gwelsom mai dim ond padiau i oedolion oedd ar gael, yn unol â'r cyngor gan yr hyfforddwr cynnal bywyd sylfaenol. Fodd bynnag, ni welsom asesiad risg mewn perthynas â'r ffaith nad oedd padiau ar gael i blant na pholisi i sicrhau bod holl staff y practis yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd mewn argyfwng sy'n cynnwys plentyn.

**Rydym yn argymhell y dylai'r practis gynnal asesiad risg yn seiliedig ar y canllawiau cynnal bywyd sylfaenol a sicrhau bod y canllawiau'n cael eu hadlewyrchu ym mholisiau perthnasol y practis i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r trefniadau i'w dilyn os bydd argyfwng sy'n cynnwys plentyn.**

### **Diogelu Plant ac Oedolion**

Gwelsom dystiolaeth bod polisiau a gweithdrefnau diogelu ar waith yn y practis. Roedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol ac yn nodi enw arweinydd diogelu'r practis yn glir. Fodd bynnag, nid oedd system effeithiol ar waith i fonitro cleifion na wnaethant fynychu eu hapwyntiadau.

**Rhaid i'r practis roi cynllun ar waith i fonitro cleifion na wnaethant fynychu eu hapwyntiadau.**

Dywedwyd wrthym fod staff gweinyddol yn chwarae rôl allweddol yn nodi oedolion sy'n wynebu risg, gan gynnwys tynnu sylw at ymddygiad sy'n peri pryder a newidiadau mewn cymeriad. Cadarnhaodd ein hadolygiad o gofnodion y staff fod y rhan fwyaf o'r staff wedi cael y lefel briodol o hyfforddiant diogelu ar gyfer eu rôl.

Cawsom hefyd dystiolaeth o waith effeithiol gan y tîm amlddisgyblaethol. Roedd hyn yn cynnwys cysylltu â'r ymwelydd iechyd lleol ynghylch cleifion na wnaethant fynychu apwyntiadau imiwneiddio. Fodd bynnag, ni welsom brotocol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth i'r tîm ymwelwyr iechyd.

Dylai'r practis roi protocol ar waith i drosglwyddo gwybodaeth i'r tîm ymwelwyr iechyd.

## Effeithiol

### Gofal Effeithiol

Roedd yn amlwg bod gan y practis dîm o staff ymroddedig a gofalgarn a oedd yn ymdrechu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Dyweddodd yr uwch-aelodau o'r staff wrthym am y weithdrefn a oedd ar waith yn y practis ar gyfer atgyfeirio cleifion. Roedd atgyfeiriadau'n cael eu categorio'n briodol fel rhai cyffredin, rhai brys ac achosion brys o ganser a amheuir.

Gwelsom fod gwasanaeth ateb ffôn y practis yn cyfeirio'r sawl a oedd yn ffonio gyda chyflyrau brys penodol i ddeialu 999 ac yn awgrymu y dylai cleifion fynd i'r fferyllfa ar gyfer mân faterion.

Byddai cleifion sy'n gofyn am apwyntiad yn cael eu sgrinio i ddechrau gan aelod o dîm y dderbynfa, a fyddai'n cynghori'r claf ynghylch y math mwyaf addas o apwyntiad ar ei gyfer ac yna'n ei gyfeirio neu'n ei drosglwyddo fel sy'n briodol. Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio templed llwybr llywio gofal ei glwstwr gofal iechyd. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn gyfarwydd â'r ystod lawn o wasanaethau clwstwr sydd ar gael.

**Gwnaethom argymhell y dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff yn gwbl ymwybodol o'r ystod o wasanaethau clwstwr sydd ar gael er mwyn gwella ansawdd ac effeithiolrwydd y broses llywio gofal.**

Byddai achosion lle mae cleifion yn cysylltu mewn argyfwng yn cael eu rheoli gan y meddyg ar ddyletswydd a allai eu cyfeirio at asiantaethau partner cefnogol fel MIND.

### Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddygol electronig 10 claf. Roedd y rhain yn cael eu storio'n briodol a'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Ar y cyfan, gwelsom fod cofnodion y cleifion yn glir ac yn cael eu cadw i safon dda. Gwelsom gofnodion clir o hanes, archwiliadau ac ymchwiliadau yn arwain at benderfyniadau ynghylch gofal cleifion. Fodd bynnag, gwelsom ddefnydd anghyson o godau Read a oedd yn golygu bod crynodebau'n anghyflawn. Gwnaethom ystyried y gallai hyn effeithio ar feddygon locwm a all gael anhawster o ran parhad y cofnod.

Rhaid i'r practis sicrhau bod codau Read yn cael eu defnyddio mewn ffordd gyson yng nghofnodion pob claf.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Mae Meddygfa Park Lane yn eiddo i ddau feddyg teulu sy'n bartneriaid ac yn cael ei gweithredu ganddynt, ac mae'n bractis ar gyfer hyfforddi meddygon teulu. Mae wedi'i lleoli yng Nghlwstwr De Rhondda ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Roedd yn amlwg bod pob aelod o'r staff yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau'n llawn, a bod llinellau atebolrwydd clir ar waith yn y practis.

Dywedwyd wrthym nad oedd cyfarfodydd tîm cyflawn yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Fodd bynnag, roedd cyfarfodydd cynllunio anffurfiol yn cael eu cynnal bob dydd rhwng rheolwr y practis a meddygon. Byddai gwybodaeth o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu rhannu gyda staff ar lafar, drwy femoranda a negeseuon e-bost i'r staff. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o gofnodion, a fyddai'n dangos tystiolaeth o wersi i'w dysgu ac yn rhannu materion clinigol pwysig.

**Rydym yn argymhell y dylai'r practis ddechrau cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd a chadw cofnodion ffurfiol ohonynt.**

Roedd gan y practis gofrestr gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar system TG y practis. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a gallai'r staff gael gafael arnynt yn hawdd drwy yriant a rennir. Byddai unrhyw newidiadau i bolisiau a gweithdrefnau'n cael eu rhannu â'r staff yn brydlon dros e-bost a byddai'n rhaid i bob un ohonynt lofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen y ddogfen ddiwygiedig.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y rhaglenni ymgysylltu a llesiant a oedd ar gael i'r staff. Dywedwyd wrthym fod y diwrnodau llesiant staff wedi dod i ben yn ddiweddar ond bod y practis yn adolygu argaeledd i'w haildechrau.

Ar adeg ein hymweliad y prif heriau a phwysau a oedd yn wynebu'r practis oedd y galw am apwyntiadau cleifion, cadw staff gweinyddol yn arbennig derbynyddion, a meddygon teulu yn gorfod cynnal adolygiadau o feddyginiaeth. Dywedodd rheolwr y practis wrthym eu bod wedi adolygu eu proses recriwtio i fynd i'r afael â'r broblem staffio a'u bod yn ceisio recriwtio eu fferylllydd eu hunain i gynnal adolygiadau o feddyginiaeth.

## Y Gweithlu

**Gweithlu medrus a galluog**

Gwnaethom siarad â staff ar draws amrywiaeth o rolau a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd yn amlwg bod gan bob un ohonynt wybodaeth gadarn am eu rolau a'u cyfrifoldebau a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion. Roedd disgrifiadau swyddi yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff. Fodd bynnag, gwelsom un disgrifiad swydd nad oedd yn adlewyrchu rôl yr aelod perthnasol o staff yn gywir a dywedwyd wrthym nad y disgrifiad swydd hwnnw a lofnodwyd ganddo yn ddiweddar.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod disgrifiadau swydd cyfredol yn cael eu cadw yn ffeiliau personél pob aelod o'r staff, a bod y rhain yn cynnwys cwmpas cymhwysedd yr aelod o staff.**

Mae'n ofynnol i staff newydd sy'n cael eu penodi ymgymryd â rhaglen sefydlu gynhwysfawr. Byddai'r broses yn cael ei dogfennu ac yn cael ei chymeradwyo gan uwch-aelod o'r staff. Roedd rhaglenni sefydlu wedi'u haddasu hefyd ar waith ar gyfer meddygon locwm a chofrestryddion.

Nodwyd bod amser yn cael ei neilltuo i'r staff clinigol astudio neu gwblhau rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus i fodloni eu gofynion ailddilysu proffesiynol a hyfforddiant gorfodol.

Er bod nyrsys wedi cael hyfforddiant cyfredol mewn cynnal bywyd sylfaenol, dangosodd ein hadolygiad o gofnodion staff sawl bwlch mewn hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff clinigol ac anghlinigol gyda thystiolaeth bod hyfforddiant atal a rheoli heintiau a hyfforddiant diogelu ar goll ar gyfer rhai. Gwnaethom godi hyn gyda rheolwr y practis a gofyn am i bob aelod o'r staff gydymffurfio'n llawn â hyfforddiant gorfodol cyn gynted â phosibl. Gwnaethom nodi bod cyfleoedd i gwblhau hyfforddiant ategol fel bwlio ac aflonyddu ar gael ond na fanteisiwyd arnynt. Rydym yn annog y practis i gymell y staff i gwblhau hyfforddiant ategol perthnasol lle y bo'n bosibl, i gefnogi polisiau ac amcanion ehangach y practis, a helpu i gyfrannu at ddatblygiad y staff.

**Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cydymffurfio'n llawn â hyfforddiant gorfodol a rhoi tystiolaeth i AGIC pan fyddant wedi'i gwblhau.**

Gwelsom fod trefniadau wedi cael eu gwneud i rai aelodau o'r staff gael eu hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol blynyddol, ond nododd rheolwr y practis mai nifer cyfyngedig o leoedd hyfforddiant oedd ar gael drwy'r bwrdd iechyd lleol. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt drefnu hyfforddiant o amgylch rhestr gweithio'r staff ar ddyletswydd.

Roedd y staff o'r farn bod y llwyth gwaith yn cael ei ddyrannu'n briodol ac o fewn eu maes ymarfer a bod cymorth gan y meddygon teulu ar gael iddynt pan fo angen.



Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y nyrsys yn cael goruchwyliaeth glinigol ffurfiol strwythuredig. Roedd cyfleoedd ar gyfer trafodaethau anffurfiol rhwng cymheiriaid, ond nid oedd y rhain yn cael eu cofnodi mewn ffeiliau personol.

**Rhaid i'r practis roi proses goruchwyliaeth glinigol ffurfiol ar waith ar gyfer nyrsys a gyflogir yn y practis.**

Roedd gan y practis ragnodwr anfeddygol, fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y broses ragnodi'n cael ei llywodraethu'n ffurfiol. Ni soniodd y rhagnodwr anfeddygol am oruchwyliaeth gan y tîm meddygol pan ofynnwyd iddo am hyn. Gwnaethom godi hyn gyda phartneriaid y practis a nododd fod pob presgripsiwn yn cael ei gyflawni neu ei wirio gan feddyg teulu.

**Rhaid i'r practis egluro pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer rhagnodi anfeddygol yn y practis a rhoi'r trefniadau ar gyfer llywodraethu'r gwasanaeth hwn i AGIC.**

Rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai'r staff yn cael eu cefnogi i fynegi pryder pe bai angen a chawsom gopi o bolisi Chwythu'r Chwiban y practis. Roedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac roedd ar gael i bob aelod o'r staff.

## **Diwylliant**

### **Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn cwynion priodol a oedd wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar ac yn unol â phroses y GIG, Gweithio i Wella. Fodd bynnag, nid oedd yr unigolion cyfrifol a enwir yn y polisi yn aelodau presennol o dîm y practis. Ymhellach, nid oedd poster Gweithio i Wella yn cael ei arddangos yn yr ardal aros.

**Rhaid i'r practis ddiwygio'r polisi cwynion i sicrhau bod enwau'r unigolion cyfrifol yn cyd-fynd ag aelodau presennol tîm y practis.**

**Rhaid i'r practis arddangos posteri Gweithio i Wella mewn ardal lle gall y cleifion eu gweld yn glir.**

Gwnaethom edrych ar ffeil cwynion y practis, a oedd yn cynnwys copïau o gwynion ysgrifenedig a llythyrau. Gwelsom fod y broses ymdrin â chwynion yn gadarn ac yn unol â'r amserlenni cwynion y cytunwyd arnynt yn y polisi.

Roedd y practis yn casglu adborth drwy arolygon cleifion a blwch awgrymiadau ynghyd â monitro'r cyfryngau cymdeithasol ac adolygiadau ar-lein. Hefyd, mae'r

practis yn ymgysylltu â grŵp cyfranogiad cleifion sy'n cyfarfod bob mis i wneud awgrymiadau a rhannu syniadau i wella a datblygu gwasanaethau. Ar ôl dadansoddi'r adborth hwn, newidiodd y practis ei system a'i ddarparwr ffôn yn ddiweddar. Gosodwyd llinellau ar wahân ar gyfer diwygio apwyntiadau, cysylltu â'r nyrs ardal a gofal lliniarol. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis unrhyw ddull ar gyfer dangos i gleifion pan fyddai sylwadau neu awgrymiadau wedi cael eu rhoi ar waith.

**Rydym yn argymhell y dylai'r practis ddefnyddio hysbysfwrdd 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' er mwyn dangos i gleifion sut mae'r practis yn ystyried adborth sy'n cyfrannu at welliannau i'r practis ac yn gweithredu arno.**

Gwnaethom siarad ag uwch-aelodau o'r staff am y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith yn y practis a oedd yn bodloni gofynion y canllawiau. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein ar y pwnc a bod rheolwr y practis yn monitro'r gyfradd gwblhau ar gyfer y staff sy'n weddill. Roedd y Ddyletswydd Gonestrwydd bellach wedi'i chynnwys yn rhaglen sefydlu'r practis.

## **Gwybodaeth**

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol**

Gwelsom dystiolaeth bod systemau ar waith i sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu casglu, eu rhannu a'u cofnodi'n effeithiol. Roedd hysbysfwrdd yng nghyntedd y fynedfa yn esbonio'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a'r modd y mae'r practis yn defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol. Roedd y practis yn defnyddio meddalwedd 'Vision' ac yn cyflwyno data ar ddigwyddiadau i'r bwrdd iechyd lleol drwy system Datix.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio gwasanaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru i weithredu fel Swyddog Diogelu Data ar gyfer y practis. Roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn delio ag unrhyw geisiadau anrheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau Diogelu Data ac yn rhoi hyfforddiant i'r staff ar geisiadau am fynediad at ddata gan y testun. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi llofnodi datganiadau cyfrinachedd data ac wedi cael hyfforddiant ar y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

## **Dysgu, gwella ac ymchwil**

### **Gweithgareddau gwella ansawdd**

Gwnaethom siarad ag uwch-aelodau o'r staff a chawsom dystiolaeth o archwiliadau a gwblhawyd i ddangos gweithgareddau gwella ansawdd a gynhaliwyd gan y

practis. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o archwiliadau'r practis, gan gynnwys archwiliad rhagnodi a gynhaliwyd yn ddiweddar. Roedd y rhain yn dangos tystiolaeth o raglen a oedd yn annog gwelliant parhaus.

Mae'r practis yn trafod adolygiadau mewnol ac allanol mewn cyfarfodydd rheoli i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r arferion gorau diweddaraf, canllawiau cenedlaethol a phroffesiynol, a ffyrdd newydd o weithio. Byddai newidiadau i ganllawiau a gwersi i'w dysgu yn cael rhannu â'r staff drwy sawl sianel gan gynnwys negeseuon e-bost, memos ac ar lafar.

## **Dull systemau cyfan**

### **Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**

Mae'r practis wedi meithrin cydberthynas dda â thîm gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd ac mae'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd â fferyllwyr cymunedol i gyflawni canlyniadau dibynadwy a chynaliadwy sy'n diwallu anghenion newidiol y gymuned.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn gweithio'n agos gyda'r gydweithredfa/clwstwr meddygon teulu lleol er mwyn meithrin dealltwriaeth a rennir o heriau ac anghenion y boblogaeth leol a helpu i integreiddio gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer ardal ehangach y Rhondda.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Park Lane

Dyddiad yr arolygiad: 07 Chwefror 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd eu hangen ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Park Lane

Dyddiad yr arolygiad: 07 Chwefror 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Roedd dros hanner y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC o'r farn nad oeddent yn gallu siarad ag aelod o staff y dderbynfa heb gael eu clywed gan bawb yn yr ardal aros i gleifion.	Rhaid i'r practis sicrhau bod cleifion sy'n siarad wrth ddesg y dderbynfa yn gallu gwneud hynny mewn ffordd sy'n cynnal eu preifatrwydd a'u cyfrinachedd.	Mae ystafell ochr breifat ar gael i'r cleifion ei defnyddio i drafod unrhyw faterion sensitif. Bydd y Practis yn sicrhau bod llinell wedi'i marcio ar y llawr er mwyn i'r cleifion 'aros y tu ôl i'r llinell nes y bydd derbynnydd ar gael' a bod arwyddion clir i hyrwyddo hyn yn cael eu harddangos er mwyn i'r cleifion barchu cyfrinachedd.	Rheolwr y Practis	Ar unwaith
Nododd dau glaf a ymatebodd i'r holiadur i gleifion nad oeddent wedi	Rydym yn argymhell y dylai'r practis fyfyrion ar y mater a godwyd yn yr adborth hwn i sicrhau bod pob claf	Mae'r holl glinigwyr wedi darllen polisi hebryngwyr y Feddygfa ac wedi cael eu	Rheolwr y Practis	Ar unwaith

<p>cael cynnig hebryngwr ar gyfer archwiliadau neu driniaethau personol.</p>	<p>yn cael cynnig hebryngwr pan fydd hynny'n briodol, yn unol â pholisi'r practis.</p>	<p>hatgoffa y dylid defnyddio codau Read i nodi y cynigiwyd hebryngwr ac i gofnodi'r ymateb priodol. Mae gwybodaeth am hebryngwyr wedi cael ei harddangos ar gyfer cleifion yn yr ardal aros ac ar y bwrdd JX.</p>		
<p>Roedd gan y cleifion sawl sylw negyddol ynghylch cael gafael ar y meddyg teulu.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai'r practis fyfyrion ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael triniaeth mewn modd amserol.</p>	<p>Mae'r practis wedi ystyried y sylwadau a wnaed ac mae'r tîm rheoli wedi trafod hyn yn fanwl ac wedi edrych ar argaeledd apwyntiadau ac rydym wedi cynyddu nifer yr apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw. Mae systemau ar waith i sicrhau y caiff apwyntiadau eu cynnig sy'n briodol i anghenion clinigol cleifion.</p> <p>Caiff adolygiadau rheolaidd o ddata ffôn eu cwblhau i nodi unrhyw faterion.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Ar unwaith ac yn barhaus</p>



		<p>Caiff manylion am unrhyw faterion sy'n effeithio ar lefelau staffio fel streiciau meddygon iau, cyfnodau o salwch neu wyliau eu rhannu'n rheolaidd â'r cleifion.</p> <p>Yn yr arolwg diwethaf o foddhad cleifion, gofynnwyd i'r cleifion "O'r adeg y gwnaethoch sylweddoli bod angen i chi ddefnyddio'r gwasanaeth, a oedd yr amser y buoch yn aros:</p> <p>Atebodd 68 y cant ei fod yn fyrrach na'r disgwyl neu ei fod yn ôl y disgwyl.</p> <p>Atebodd 32 y cant ei fod ychydig yn rhy hir neu'n rhy hir o lawer.</p>		
Dywedwyd wrthym nad oedd y 'Cynnig Rhagweithiol' ar	Mae'n ofynnol i reolwr y practis roi manylion i AGIC am y camau a	Mae'r practis wedi creu arwyddion clir a chaiff 'y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg' ei arddangos yn yr	Rheolwr y Practis	Ar unwaith

<p>gyfer y Gymraeg ar gael i'r cleifion</p>	<p>gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith</p>	<p>ardaloedd i gleifion, ar y bwrdd JX, ar y wefan ac ar y tudalennau cyfryngau cymdeithasol.</p>		
<p>Dywedwyd wrthym fod y practis yn dosbarthu dogfennau papur o amgylch y practis gyda'r ddogfen yn cael ei sganio ar y system ar ddiwedd y broses, ar ôl i'r camau gweithredu gael eu cwblhau.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai'r holl bost sy'n cyrraedd gael ei sganio i system TG y practis cyn cael ei ddosbarthu i'r staff perthnasol weithredu arno drwy'r broses llif gwaith ar y system TG er mwyn sicrhau llwybr archwilio.</p>	<p>Mae tîm rheoli'r practis wedi trafod a chytuno y byddant yn sganio'r holl bost sy'n cyrraedd ar system TG y practis cyn iddo gael ei ddosbarthu i'r staff perthnasol weithredu arno. Caiff protocol newydd ar gyfer staff ei gwblhau a'i ddosbarthu.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Ar unwaith/parhaus</p>
<p>Roedd dau glaf a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi bod yn destun gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn neu wrth ei ddefnyddio.</p>	<p>Rhaid i'r practis hysbysu AGIC ynghylch y camau pellach y mae'n eu cymryd i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn cleifion.</p>	<p>Mae gan y practis bolisiau ar waith a gofynnwyd i'r holl staff eu darllen.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Ar unwaith ac yn barhaus</p>
<p>Gwelsom ardaloedd lle roedd angen gwneud gwaith glanhau ychwanegol (to'r</p>	<p>Rhaid i'r practis drefnu bod y problemau glanhau yn cael eu datrys a bod y cortyn tynnu mewn</p>	<p>Mae'r practis wedi gofyn i'r gofalwr lanhau to'r cyntedd ac wedi gofyn i'r cwmni</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>1 mis</p>

<p><b>cyntedd/cadeiriau olwyn/toiledau'r cleifion). Gwnaethom nodi hefyd nad oedd cortyn tynnu mewn argyfwng ar gael yn y toiled hygyrch.</b></p>	<p>argyfwng yn cael ei osod cyn gynted â phosibl.</p>	<p>glanhau lanhau'r cadeiriau olwyn a thoiledau'r cleifion. Caiff toiledau'r cleifion eu hailbaentio hefyd.</p> <p>Caiff cortyn tynnu mewn argyfwng i gleifion ei gyrchu, ei brynu a'i osod ar unwaith.</p>		
<p><b>Gwelsom nad oedd mynedfa'r staff wedi'i chloi sy'n golygu y gellir cael mynediad i ardaloedd cyfyngedig.</b></p>	<p>Rhaid i'r practis osod system gloi briodol ar y drws er mwyn sicrhau bod y fynedfa gefn yn cael ei diogelu.</p>	<p>Mae mynedfa'r staff bellach wedi'i chloi a dylai'r staff ddefnyddio'r brif fynedfa nes y gellir dod o hyd i system gloi briodol ar gyfer y drws.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>2 fis</p>
<p><b>Nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o adborth o ddadansoddiadau o ddigwyddiadau o bwys.</b></p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cael eu hysbysu ynghylch canlyniadau dadansoddiadau o ddigwyddiadau o bwys er mwyn eu hannog i ddysgu gwersi o ddigwyddiadau.</p>	<p>Bydd y practis yn sicrhau bod yr holl staff yn cael gwybod am ganlyniadau dadansoddiadau o ddigwyddiadau o bwys drwy gyfarfodydd y practis a chyfarfodydd clinigol a chaiff hyn ei ddangos yn y cofnodion.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Parhaus</p>

<p>Roedd rhai o'r staff yn ansicr o'r cyfleuster hwn a'r broses i'w dilyn pe bai angen iddynt alw am help ar frys.</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn gwbl ymwybodol o'r system rhybuddio botwm coch.</p>	<p>Mae'r holl staff bellach wedi cael hyfforddiant ar sut mae'r system rhybuddio botwm coch yn gweithio. Ysgrifennwyd protocol a'i ddsbarthu i'r staff.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Ar unwaith</p>
<p>Dywedwyd wrthym nad oedd asesiad risg yn ymwneud ag ymweliadau â chartrefi wedi'i gwblhau eto.</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r practis gynnal asesiad risg mewn perthynas ag ymweliadau â chartrefi.</p>	<p>Mae asesiad risg mewn perthynas ag ymweliadau â chartrefi wrthi'n cael ei lunio a chaiff ei ddsbarthu i'r staff ar ôl iddo gael ei gwblhau.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Ar unwaith</p>
<p>Nid oedd posterï ynghylch anafiadau nodwydd ar gael yn yr ystafelloedd trin i gynghori'r staff ar y camau i'w cymryd pe bai rhywun yn cael anaf offer miniog.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai fod siart llif anafiadau offer miniog ar gael ym mhob ardal glinigol yn y practis er mwyn osgoi oedi diangen cyn cael triniaeth neu gyngor meddygol.</p>	<p>Mae pecynnau gwybodaeth / posterï ynghylch anafiadau offer miniog bellach yn cael eu harddangos ym mhob ystafell glinigol</p>	<p>Tîm nyrsio</p>	<p>Ar unwaith</p>
<p>Nid oedd arweinydd atal a rheoli heintiau wedi'i benodi.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai'r practis benodi arweinydd atal a rheoli heintiau i roi cyngor a chymorth i gydweithwyr mewn perthynas â materion atal a rheoli heintiau.</p>	<p>Am fod un o aelodau'r tîm Nyrsio newydd ymddeol - mae rôl yr arweinydd atal a rheoli heintiau yn cael ei thrafod â'r tîm Nyrsio a'r</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Ar unwaith</p>

		Rheolwyr. Caiff arweinydd ei benodi yn fuan.		
<b>Roedd cwmni allanol yn gyfrifol am lanhau'r practis. Ni allem ddod o hyd i gopi o'r contract glanhau, ac ni welsom dystiolaeth o amserlenni glanhau.</b>	Rhaid i'r practis sicrhau bod contract glanhau ar waith a bod amserlenni glanhau digonol yn cael eu defnyddio a rhoi tystiolaeth i AGIC o hyn.	Mae contract glanhau wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn. Mae'r practis wedi gofyn am contract cyfredol. Mae amserlenni glanhau ar gyfer pob ystafell wrthi'n cael eu hysgrifennu.	Rheolwr y Practis	2 fis
<b>Nid oedd cofnodwyr data ar gael ar gyfer yr oergelloedd meddyginiaethau i fonitro tymereddau dros y penwythnosau a gwyliau banc ac ar ôl toriadau trydan.</b>	Rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried defnyddio cofnodwyr data tymheredd i fonitro tymereddau'r oergelloedd.	Bydd y practis yn cyrchu ac yn prynu cofnodwyr data ar gyfer pob oergell.	Rheolwr y Practis/Tîm Nyrsio	2 fis
<b>Nid oedd rhestr wirio o'r cyffuriau a'r brechlynnau a gedwir gan y practis.</b>	Rhaid i'r practis gadw rhestr wirio o'r cyffuriau a'r brechlynnau a gedwir yn y practis.	Bydd y practis yn rhoi rhestr wirio ar waith o'r holl gyffuriau a brechlynnau a gedwir yn y feddygfa a chaiff amser ei neilltuo i'r tîm Nyrsio gynnal gwiriadau bob wythnos.	Rheolwr y Practis	Ar unwaith

<p>Nid oedd thermomedr ystafell ar gael i sicrhau bod cyffuriau (nad oes angen eu cadw yn yr oergell) yn cael eu storio ar y tymheredd gofynnol.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried gosod thermomedr ystafell lle caiff meddyginiaeth ei storio.</p>	<p>Bydd y practis yn cyrchu ac yn prynu thermomedr ystafell. Ar ôl iddo gael ei osod caiff y tymheredd ei wirio a'i gofnodi bob dydd.</p>	<p>Rheolwr y Practis a'r Tîm Nyrsio</p>	<p>2 wythnos</p>
<p>Gwelsom dystiolaeth bod y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn cael eu gwirio bob mis.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai'r cyfarpar a'r cyffuriau brys gael eu gwirio bob wythnos.</p>	<p>Gall y practis gadarnhau bod y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn cael eu gwirio bob wythnos. Mae amser gwarchodedig wedi'i neilltuo i'r tîm Nyrsio gwblhau gwiriadau bob wythnos.</p>	<p>Rheolwr y Practis a'r Tîm Nyrsio</p>	<p>Ar unwaith</p>
<p>Gwelsom nad oedd arwyddion ar gyfer yr ocsigen na'r cyffuriau brys. Ymhellach, roedd y cyfarpar brys wedi'i rannu rhwng dwy ystafell drin, gyda rhywfaint o'r cyfarpar wedi'i gloi mewn cwpwrdd a oedd yn golygu na ellid cael gafael arno'n rhwydd mewn argyfwng.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai'r practis storio'r holl gyfarpar a meddyginiaethau brys mewn un lleoliad, gydag arwyddion priodol i ddangos y lleoliad i'r staff.</p>	<p>Gall y practis gadarnhau bod yr holl gyfarpar brys bellach yn cael ei gadw mewn un lleoliad, mae'r holl staff yn ymwybodol o'r lleoliad hwn ac mae'r cyfarpar brys bellach ar gael yn rhwydd i'r staff pan fydd angen. Mae arwyddion clir ar gyfer ocsigen a chyffuriau brys bellach wedi'u harddangos.</p>	<p>Tîm nyrsio</p>	<p>Ar unwaith</p>

<p>Dim ond padiau i oedolion oedd ar gael ar gyfer y diffibriliwr allanol awtomataidd, yn unol â'r cyngor gan yr hyfforddwr cynnal bywyd sylfaenol. Fodd bynnag, ni welsom asesiad risg mewn perthynas â'r ffaith nad oedd padiau ar gael i blant na pholisi i sicrhau bod holl staff y practis yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd mewn argyfwng sy'n cynnwys plentyn.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai'r practis gynnal asesiad risg yn seiliedig ar y canllawiau cynnal bywyd sylfaenol a sicrhau bod y canllawiau'n cael eu hadlewyrchu ym mholisiau perthnasol y practis i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r trefniadau i'w dilyn os bydd argyfwng sy'n cynnwys plentyn</p>	<p>Bydd y practis yn cynnal asesiad risg cyfredol ac yn llunio polisi i nodi'r wybodaeth hon.</p>	<p>Rheolwr y Practis a'r Tîm Nyrsio.</p>	<p>Ar unwaith</p>
<p>Nid oedd system effeithiol ar waith i fonitro cleifion na wnaethant fynychu eu hapwyntiadau.</p>	<p>Rhaid i'r practis roi cynllun ar waith i fonitro cleifion na wnaethant fynychu eu hapwyntiadau.</p>	<p>Mae'r practis yn cynnal chwiliadau misol ar hyn o bryd mewn perthynas â cleifion na wnaethant fynychu eu hapwyntiadau a chaiff y nifer ei arddangos bob mis. Trafodwyd hyn â'r rheolwyr a chaiff y rhestrau eu hadolygu er mwyn nodi unrhyw achosion sy'n codi dro</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Ar unwaith ac yn barhaus</p>

		ar ôl tro a byddant yn gweithredu ar hyn yn briodol.		
Ni welsom brotocol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth i'r tîm ymwelwyr iechyd.	Dylai'r practis roi protocol ar waith i drosglwyddo gwybodaeth i'r tîm ymwelwyr iechyd.	Ar hyn o bryd, mae staff y practis yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth i'r ymwelwyr iechyd ar lafar ynghylch unrhyw gleifion na wnaethant fynychu apwyntiadau sy'n ymwneud â goruchwyllo iechyd plant. Caiff unrhyw ohebiaeth ei rhoi ym mlwch yr ymwelwyr iechyd, a roddir iddynt pan fyddant yn cyrraedd y feddygfa. Bydd y feddygfa'n rhoi llyfr/ffolder negeseuon ar waith at ddefnydd yr ymwelydd iechyd yn unig.	Rheolwr y Practis	1 mis
Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio templed llwybr llywio gofal ei glwstwr gofal iechyd. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn gyfarwydd â'r ystod lawn o	Rydym yn argymhell y dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff yn gwbl ymwybodol o'r ystod o wasanaethau clwstwr sydd ar gael er mwyn gwella ansawdd ac effeithiolrwydd y broses llywio gofal.	Mae'r staff wedi cael protocol llawn sy'n cynnwys rhestr gynhwysfawr o wasanaethau clwstwr. Rhoddir hyfforddiant mewn swydd i'r holl swyddogion llywio gofal. Rhoddir cymorth ychwanegol	Rheolwr y Practis	Ar unwaith ac yn barhaus



wasanaethau clwstwr sydd ar gael.		i unrhyw aelod o'r staff sydd ei angen.		
Gwelsom ddefnydd anghyson o godau Read a oedd yn golygu bod crynodebau'n anghyflawn.	Rhaid i'r practis sicrhau bod codau Read yn cael eu defnyddio mewn ffordd gyson yng nghofnodion pob claf.	Atgoffwyd pob aelod o staff o bwysigrwydd codau Read. Mae hon yn broses barhaus. Mae un aelod o staff wedi cwblhau cwrs codau Read yn ddiweddar er mwyn helpu yn hyn o beth.	Rheolwr y Practis	Ar unwaith ac yn barhaus
Dywedwyd wrthym nad oedd cyfarfodydd tîm cyflawn yn cael eu cynnal yn rheolaidd.  Ni welsom unrhyw dystiolaeth o gofnodion o gyfarfodydd, a fyddai'n dangos tystiolaeth o wersi i'w dysgu ac yn rhannu materion clinigol pwysig.	Rydym yn argymhell y dylai'r practis ddechrau cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd a chadw cofnodion ffurfiol ohonynt.	Mae'r practis wedi rhoi cyfarfodydd practis ar waith a gaiff eu cynnal bob 3 mis.  Caiff cofnodion eu cadw a'u dosbarthu i bob aelod o'r staff.	Rheolwr y Practis	Ar unwaith ac yn barhaus
Gwelsom ddisgrifiad swydd nad oedd yn adlewyrchu rôl yr aelod perthnasol o staff yn gywir a dywedwyd wrthym nad y disgrifiad swydd	Rhaid i'r practis sicrhau bod disgrifiadau swydd cyfredol yn cael eu cadw yn ffeiliau personél pob aelod o'r staff, a bod y rhain yn	Gall y practis gadarnhau y caiff holl ddisgrifiadau swyddi'r staff eu gwirio a'u diwygio'n drylwyr fel sy'n briodol.	Rheolwr y Practis	Ar unwaith

hwnnw a lofnodwyd ganddo yn ddiweddar.	cynnwys cwmpas cymhwysedd yr aelod o staff.			
Yng ngofnodion y staff nodwyd sawl bwlch mewn hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff clinigol ac anghlinigol gyda thystiolaeth bod hyfforddiant atal a rheoli heintiau a hyfforddiant diogelu ar goll ar gyfer rhai.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cydymffurfio'n llawn â hyfforddiant gorfodol a rhoi tystiolaeth i AGIC pan fyddant wedi'i gwblhau.	Bydd y practis yn nodi pa hyfforddiant y mae angen i bob aelod o'r staff ei gwblhau a chaiff amser gwarchoddedig ei neilltuo i gwblhau hyn. Rhoddir tystiolaeth i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.	Rheolwr y Practis	1 wythnos
Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y nyrsys yn y practis yn cael goruchwyliaeth glinigol ffurfiol strwythuredig.	Rhaid i'r practis roi proses goruchwyliaeth glinigol ffurfiol ar waith ar gyfer nyrsys a gyflogir yn y practis.	Mae'r practis yn cysylltu â thîm Nyrsio'r BILL i ddarparu cymorth gyda hyfforddiant. Caiff proses ysgrifenedig ei llunio gydag unrhyw oruchwyliaeth yn cael ei dogfennu'n rheolaidd.	Rheolwyr a'r Tîm Nyrsio	1 wythnos
Roedd gan y practis ragnodwr anfeddygol, fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y broses ragnodi'n cael ei llywodraethu'n ffurfiol.	Rhaid i'r practis egluro pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer rhagnodi anfeddygol yn y practis a rhoi'r trefniadau ar gyfer llywodraethu'r gwasanaeth hwn i AGIC.	Nid yw'r practis yn cyflogi rhagnodwr anfeddygol ac nid yw'n bwriadu cyflogi un. Mae'r unigolyn y soniwyd amdano wedi ymddeol o'r practis ers hynny.	Rheolwr y Practis	Ar unwaith

<p>Nid oedd yr unigolion cyfrifol a enwir yn y polisi cwynion yn aelodau presennol o dîm y practis. Ymhellach, nid oedd poster Gweithio i Wella yn cael ei arddangos yn yr ardal aros.</p>	<p>Rhaid i'r practis ddiwygio'r polisi cwynion i sicrhau bod enwau'r unigolion cyfrifol yn cyd-fynd ag aelodau presennol tîm y practis.</p> <p>Rhaid i'r practis arddangos posteri Gweithio i Wella mewn ardal lle gall y cleifion eu gweld yn glir.</p>	<p>Mae'r practis wedi diwygio'r polisi cwynion i sicrhau bod enwau'r aelodau staff cywir wedi'u nodi.</p> <p>Mae'r practis wedi arddangos posteri Gweithio i Wella yn Gymraeg ac yn Saesneg yn yr ardal aros i gleifion.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Ar unwaith</p>
<p>Nid oedd gan y practis ddull ar gyfer dangos i gleifion pan fyddai sylwadau neu awgrymiadau wedi cael eu rhoi ar waith.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai'r practis ddefnyddio hysbysfwrdd 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' er mwyn dangos i gleifion sut mae'r practis yn ystyried adborth sy'n cyfrannu at welliannau i'r practis ac yn gweithredu arno.</p>	<p>Bydd y practis yn diweddarau'r hysbysfwrdd yn yr ystafell aros yn rheolaidd gyda gwybodaeth 'dywedoch chi, gwnaethom ni' i'r cleifion, a bydd hefyd yn defnyddio'r bwrdd JX. Caiff cofnodion y Grŵp Cyfranogiad Cleifion eu harddangos ar y bwrdd hwn hefyd.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Ar unwaith</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Rebecca Cook  
**Teitl swydd:** Rheolwr y Practis  
**Dyddiad:** 19/04/2024